Yn union fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. A chan fod gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hynny.

Rhufeiniaid 12

[Cofiwch am etholiad blaenoriaid newydd, bore Sul, 14 Mehefin.]

Gair i'n gilydd

Braint o fod yn perthyn!

Ar y trydydd Sul o'r mis hwn mae'n ddiwrnod Sul y Tadau – diwrnod sydd, mae'n debyg, wedi ennill ei blwyf yn sgil poblogrwydd Sul y Mamau. Os ydych chi fel fi, go brin fod gennych fawr o amynedd at ddiwrnodau o'r fath. Ar ryw olwg, lol Americanaidd yw'r cyfan sy'n ein gorfodi ni i brynu cardiau drud ac anrhegion di-werth er mwyn cynyddu elw siopau. Ond wedi dweud hynna, mae'n hen bryd i lywodraethau'r Cynulliad, San Steffan, Ewrop a thu hwnt roi fwy o bwyslais ar hybu y cartref a gwerthoedd teuluol a chymunedol. Ychydig wythnosau'n ôl rhybuddiodd yr Ustus Coleridge, Uwch Farnwr yn y Llys Materion Teuluol, y gallai'r dirywiad yn yr uned deuluol fod yn argyfyngus i'n goroesiad fel cymdeithas. Dirywio hefyd mae'r wedd deuluol o fywyd cymunedol wrth i'n bywydau soffistigedig a chymhleth ein hatal rhag malio cymaint am gyfaill a chymydog.

Yr hyn sy'n bwysig felly, yn wyneb argyfyngau o'r fath, yw glynu ac ehangu ar yr hyn sy'n dda a gwerthfawr. Ry'n ni'n ffodus fel aelodau a chyfeillion Capel y Morfa ein bod yn rhan o deulu estynedig. Yn sicr, rwyf i a Gwen (er nad yw Gwen yn sylweddoli hynny eto!) wedi gwerthfawrogi yn fawr eich croeso twymgalon ac yn teimlo ein bod yn aelodau llawn o deulu'r Morfa. Beth yw rhinweddau bywyd teuluol d'wedwch? Gyda theulu teimlwn yn saff, ymlaciwn a bod yn `ni'n hunain' gan ein bod yn cael ein derbyn a'n deall. Mae'r uned deuluol yn ein galluogi i groesawu a chysuro ffrindiau. Does ryfedd fod Gwen yn gofyn yn aml ar ddydd Mercher "A oes capel heddi, mam?" Mae yn y Morfa a'r Morlan, ymhellach, ymdrechion glew i ddarparu ar gyfer anghenion pob cenhedlaeth a chyfle i bob cenhedlaeth gyfrannu at bob gweithgaredd. Mae 'na wagle, wrth gwrs, ar ôl ymddeoliad arweinydd a phryder nad oes, hyd yma, rhywun i lanw'r bwlch. Ond rhaid ceisio peidio digalonni'n ormodol gan nad yw teulu'r Morfa chwaith ar ben ei hun – rhan ydym o deulu Duw.

Geiriau Paul wrth gysuro'r Effesiaid, os y cofiwch, oedd :

"nid estroniaid a dieithriaid ydych mwyach, ond cyd-ddinasyddion a'r saint ac aelodau o deulu Duw. Yr ydych wedi eich adeiladu ar sylfaen yr apostolion a'r proffwydi, a'r conglfaen yw Crist Iesu ei hun." Effesiaid 2 (19–20).

Fe fydd Gwen a fi yn cofio am Henry ar Sul y Tadau, wrth gwrs, fel ar bob diwrnod arall o'r flwyddyn. Mae'n anodd weithiau a phwy a ŵyr sut fydd Gwen yn ymdopi yn y dyfodol. Ond o rannu'r profiad a theulu'r Morfa a theulu Duw, fe fydd pethau dipyn yn haws.

Sarah Down

Newyddion

Llongyfarchiadau i ...

- Mrs Enid Roberts, Cartref Bodlondeb am ddod yn hen-famgu i Llew Jacob – mab i Geraint a Heledd Owen ac ŵyr i William a Cynthia Owen, Bangor a Geraint ac Eirian Evans, Tal-y-bont.
- i Mrs May Roderick, Cartref Cysgod y Coed, Llanilar ar ddod yn hen-famgu i Owen Thomas – brawd i Matthew ac ŵyr i Geraint a June Roderick.
- Daniel Rowbotham a Gwion, Rhian a Garmon Jac Jones ar gael eu derbyn i fod yn rhan o gast y sioe *The King and I* yng Nghanolfan y Celfyddydau dros yr haf. Bu Daniel hefyd yn ymddangos ar y rhaglen Moscito ar S4C yn ddiweddar.
- Gwynfor a Shelagh Jones ar ddathlu eu Priodas Rhuddem ar 11 Mai. Hefyd i Shelagh am ennill cystadleuaeth cyn-llunio Cerdyn Nadolig Merched y Wawr.
- i Sarah Down am ennill cadair yn Eisteddfod Talgarreg, 2 Mai, am gyfansoddi emyn diolchgarwch. Cafodd ganmol-iaeth uchel gan y beirniad, Siân Teifi ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn at weld yr emyn yn y rhifyn nesaf o Perthyn.

Anfonwn ein cofion ...

- at Gwenlais Jones a'r Tad Harding Rees sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

⌖ hefyd at Mrs Dilys Evans sydd wedi dychwelyd i Gartref Tregerddan ar ôl rhai dyddiau yn yr ysbyty.

Ethol Blaenoriaid

Fel y cofiwch, pleidleisiodd y gynulleidfa ar 15 Mawrth i ethol mwy o flaenoriaid i Gapel y Morfa.

Pam mae angen mwy o flaenoriaid arnom? Y rheswm a roddwyd yn Perthyn mis Mawrth oedd fod rhaid rhoi cyfle i eglwys bob saith mlynedd i ystyried a yw hi am ethol mwy o flaenoriaid, ac mae'r amser wedi dod i ni wneud. Ond mae'n fwy na hynny. Mae angen cael arweinyddion ffres a syniadau newydd: mae eglwys, fel pob cymdeithas arall, yn dibynnu ar adnewyddiad. Mae pawb yn blino ar 'yr un hen wynebau'!

Os clywsoch chi Dai Alun yn darllen y 'Datganiad' o swyddogaeth a gwaith blaenor, efallai eich bod chi wedi cael ofn. Ces i fraw, ac rwy'n flaenor yn barod! Y gwir yw fod angen darllen y Datganiad ochr yn ochr â geiriau'r Apostol Paul yn y Llythyr at y Rhufeiniaid, pennod 12, adnodau 4–8, lle mae sôn am amrywiaeth doniau o fewn un corff. Does dim un enaid byw a all gyflawni holl agweddau'r Datganiad; ond mae blaenoriaid unrhyw eglwys yn gweithio fel tîm, gyda phob un yn dod â'i (d)doniau a'i sgiliau ei hun at y gwaith.

Bydd yr etholiad yn cael ei gynnal yng ngwasanaeth y bore ar Mehefin 14. Pleidlais gudd fydd hi, a rhaid i chi fod yn bresennol yn yr oedfa er mwyn gallu pleidleisio. Bydd yn beth da os gallwch baratoi rhestr o enwau ymlaen llaw, gan gofio:

- y gallwch enwi faint a fynnoch ar eich rhestr, gorau po fwyaf
- mai dim ond pobl sydd yn aelodau yng Nghapel y Morfa (yn cynnwys Ebeneser) sy'n cael pleidleisio ac sy'n gallu cael eu hethol
- mai'r sawl sy'n cael dros 50% o'r bleidlais sy'n cael eu hethol

Bydd pedwar cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn arolygu'r bleidlais ac yn cyfri'r pleidleisiau.

Mae'r bleidlais yn bwysig i ddyfodol yr eglwys – gadewch inni feddwl yn ddwys a gofyn yn weddigar am arweiniad Duw.

Rhidian

O iachawdwriaeth gadarn

(509 Caneuon Ffydd)

Mae Williams Pantycelyn yn bwrw arni'n syth yn yr emyn hwn i ryfeddu at y drefn gywrain y mae Duw wedi'i darparu i ni gael bod yn Gristnogion, yn deulu o gredinwyr sy'n arddel Iesu'n Arglwydd ac yn Waredwr. Ond er bod trefn Duw i gadw dyn yn gadarn ac yn glir, y mae'r emynydd yn cyfaddef fod yma ryw ddirgelion sy'n rhy ddyrys i ni feidrolion i'w deall. Yn wir, nid ydyn ni'n agos at ddeall meddwl a gallu Duw, oherwydd Duw yn unig sy'n hollalluog.

Rydyn ni wedi bod yn adrodd yr adnod 'Duw cariad yw' ers i ni fod yn blant. Gobeithio y gallwn ni i gyd ymdeimlo â'r Duw hollalluog sy'n ein caru ni i gymaint graddau nes iddo anfon Iesu i Groes Calfaria i farw yn ein lle ni. Ac yn sicr, does dim dianc rhag yr aberth hwnnw yn emyn Pantycelyn. Mae'r ail bennill yn sôn am gariad Duw fel 'fflam angerddol gref', oherwydd Duw cariad, Duw trugaredd, Duw sy'n maddau, Duw sy'n tosturio yw ein Duw ni. Gwyn ein byd!

Mae Pantycelyn yn mynd yn ei flaen i sôn am waith achubol Iesu Grist yn nhrydydd pennill yr emyn. 'Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd', meddai Ioan, ac mae Pantycelyn yn canu:

> yng nghlwyfau'r Oen fu farw
> yn unig mae iachâd.

Dyna wirionedd ryfeddol, taw yng nghlwyfau a dioddefaint Iesu y mae modd i ni gael bywyd a iechyd. Mae'r pwyslais fan hyn ar y geiriau 'yn unig', sy'n datgan nad oes iachawdwriaeth yn neb arall. 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd', meddai Iesu.

Dyma ddod at eiriau hynod o bwerus ym mhedair llinell olaf yr emyn. Fe fentra' i ddweud mai prin iawn yw'r bobl

hynny y gallan nhw ddweud eu bod nhw'n holliach. Llestri brau a bregus ydyn ni i gyd mewn gwirionedd, ac fe dybia' i fod hyd yn oed y cryfaf ohonom ni'n gwybod am euogrwydd, am ofn ac am bryder. Maen nhw'n rhan o'n profiad ni, ac o'r herwydd, mae cael gwybod am yr iachâd hwn y mae Pantycelyn yn tystio iddo, yn gysur mawr:

> iachâd oddi wrth euogrwydd,
> iachâd o ofnau'r bedd;
> a chariad wedi ei wreiddio
> ar sail tragwyddol hedd.

Mewn emyn cyfarwydd arall, fe dystiodd Pantycelyn:

> euogrwydd fel mynyddoedd byd
> dry'n ganu wrth dy groes.

'Iesu'n unig yw ein noddfa' meddai emynydd arall, a gellid dyfynnu rhagor o emynwyr sy'n canu am Iesu'n trugarhau, yn cryfhau ac yn distewi ofnau'r galon a stormydd yr enaid.

I fi, y pedair llinell sy'n cloi'r emyn sy'n coroni'r emyn hwn. Ni allaf roi fy mys arno ac egluro pam, dim ond fy mod i'n gwybod, fel Pantycelyn, fod pwyso ar Iesu yn fy nghynnal i. Heb ei gariad a'i faddeuant a'i allu i dawelu'r storm, fe fyddai fy mywyd i yn dipyn tlotach.

Delyth Morgans

Trip dirgel y gymdeithas

Yn dilyn y penderfyniad a wnaethpwyd ar y trip llynedd, yr ydym am gynnal ein trip eleni ar ddydd Sadwrn a'i wneud yn drip diwrnod. Dydd Sadwrn, 27 Mehefin, fydd y dyddiad, ond nid yw'r manylion wedi eu cwblhau eto, felly fe'u cyhoeddir yn y Capel yn fuan. Fel arfer, fe fydd yn drip hamddenol a diddorol a bydd pryd o fwyd blasus ar ddiwedd y dydd. Croeso i blant hefyd am bris gostyngol.

Hefin Jones

Newyddion Ebeneser

Y mae'r Sulgwyn yn ddydd pwysig iawn yn hanes Eglwys Iesu Grist. Ar y Pentecost y disgynnodd yr Ysbryd Glân ar y disgyblion yn Jerwsalem a'u nerthu i ddechrau'r gwaith o efengylu. Y mae fel dydd pen blwydd yr Eglwys a down at ein gilydd i ganu mawl a diolch i Dduw am waith ei Eglwys yn y byd. Rhodd fawr Duw yw'r Ysbryd Glân ac mae am i bawb ei dderbyn, ond yr unig amod yw bod rhaid gofyn i Dduw amdano. Yr Ysbryd Glân yw'r gallu sydd yn ein helpu ni i fod yn ddewr dros Iesu Grist. Nid ydym yn ddigon dewr yn nerth ein hunain, rhaid i'r Ysbryd Glân ein nerthu ni.

Ar ôl i Iesu Grist esgyn i'r nef aeth y disgyblion i'r oruwch ystafell yn Jerwsalem i weddïo'n ddwys. Fe ddaeth yr Ysbryd Glân i'w nerthu ac aethant allan i'r byd fel Apostolion i ddysgu'r bobl. Yr Ysbryd Glân sy'n rhoi ystyr i fywyd ymhob oes ac yn rhoi inni flas ar fyw. Boed i Dduw ein bendithio ni i gyd a'n harwisgo â nerth yr Ysbryd Glân i wneud ei Ewyllys Ef yn y byd.

O disgynned yma'n awr
ysbryd Crist o'r nef i awr;
boed ei ddylanwadau ef
yn ein plith fel awel gref;
a gorffwysed ef a'i ddawn
ar eneidiau lawer iawn.

Gan fod Rhiannon yn ôl erbyn hyn ar bedair olwyn ac wedi ailddechrau casglu tair aelod ffyddlon i'r oedfa ar brynhawn

Sul, mae'n rhaid yn awr ddiolch o galon i Mrs Megan J Evans am wneud ymdrech i gymryd trosodd bob Sul fel gyrrwr tacsi yn ei lle dros fisoedd lawer, a hynny yn ddirwgnach.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alison Skitt a Matthew Evans ar eu priodas yng Nghapel y Morfa ar Ddydd Sadwrn, 23 Mai. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig J Elwyn Jenkins.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â dwy aelod ffyddlon, Mrs Jeanie Jones a Mrs Mattie Shaw ar farwolaeth cefnder iddynt sef Mr Ieuan Daniel, Rhydybont, Penparcau, a fu farw yng nghartref Hafan-y-Waun ar ôl sawl blwyddyn o anhwylder iechyd. Cofiwn hefyd am ei briod Beryl a'r meibion a'u teuluoedd.

Trist oedd clywed am farwolaeth annisgwyl Miss Mair Jones (gynt o Gwnnws a Phenparcau) a hynny yng nghartref gofal 'Cwrt Enfys' yn Ystradgynlais ar 8 Mai. Wedi ymddeol o'i swydd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llundain ac Aberystwyth, daeth i fyw i'r pentref a dod yn ffyddlon yn ei mini bach i Ebenser ar brynhawn Sul ac roedd wrth ei bodd yn addoli gyda ni. Gwanllyd iawn bu ei iechyd ers dros bum mlynedd bellach ac ar ôl ysbaid yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Tregaron, cafodd ei symud o un cartref nyrsio i'r llall a hynny yn peri gofid mawr iddi. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn a'i pherthnasau i gyd yn eu profedigaeth.

Mae Mrs Mary Owen a Mr Alwyn Evans yn cadw'n reit dda yng Nghartref Bodlondeb, hefyd Mrs Laura Rumsey-Williams yng Nghysgod y Coed a Miss Jeanie Evans yn Hafan-y-Waun, ond gwanllyd iawn yw Mr Robert John Davies erbyn hyn yng Nghwmcynfelin. Cofion caredig atoch i gyd. Brysiwch wella yw ein neges i Mrs Betty Davies a Mrs Clariss Pyle sydd yn dal heb fod yn ddigon da i ddod i'r oedfa a Mrs Megan J Evans sydd wedi bod yn boenus iawn ers canol mis Mai ac wedi bob yn gaeth i'w chartref. Pur anaml mae angen i ni orfod cael cyhoeddwr yn ei lle ar brynhawn Sul. Diolch i Alun Morris am ddod i'r adwy.

Hel meddyliau

Mae'r gyfres o nosweithiau yn y Morlan o dan y pennawd "Dweud ei ddweud" wedi hen gydio erbyn hyn. Cyfle i unigolion neu arbenigwr i roi safbwynt (dadleuol fel arfer) ar unrhyw fater i wneud gyda'n bywyd crefyddol ac yna fe geir trafodaeth bellach gan y gynulleidfa. Mae yna nifer o drafodaethau diddorol a heriol wedi cymryd lle ar amryw o bynciau llosg.

Noson heb ei ail a gafwyd ar 27 Ebrill yng nghwmni'r Parch John Gwilym Jones o dan y teitl "Cristnogaeth Radical mewn Eglwys Geidwadol". Mae'n amlwg i'r pwnc a'r siaradwr ddal y dychymyg, gan i nifer fawr droi allan i'r noswaith.



Mae yna dueddiad i drafodaeth a dadlau ar bwnc diwinyddol fod braidd yn drwm a diflas ar achlysuron o'r fath. Y tueddiad yw i weinidogion (a chyn weinidogion), ysgolheigion a'r rheini sy'n hyddysg yn y Beibl i drafod ar lefel lle mae meidrolyn (fel fi) ar goll, ac yn wir yn ei chael yn anodd i gyfrannu tuag at y drafodaeth. Ond nid felly fu hi'r noson hon – roedd y ddarlith yn wych ac yn hollol ddealladwy a chlir. Yn wir fe godwyd pwyntiau sydd wedi fy mhoeni i am beth amser. Hynny yw, amheuon am hanfod y ffydd Gristnogol a ble mae'r gwirionedd. Fe aeth y trafod ar ôl hynny braidd yn ddiwinyddol. Trueni am hynny am fy mod yn siŵr fod John Gwilym Jones wedi taro ar sawl pwynt sy'n poeni nifer ohonom ond ein bod yn rhy swil i ymateb. Efallai y bydd modd ehangu'r drafodaeth mewn grwpiau llai lle y bydd modd i bawb wneud cyfraniad?

Hanfod y ddarlith gychwynnol oedd cais John Gwilym Jones i agor trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth mewn cyfnod lle mae ceidwadaeth grefyddol ar gynnydd. Nid wyf yn bwriadu rhoi crynodeb o'r ddarlith am ddau reswm. Yn gyntaf

rwy'n siŵr y byddwn yn gwneud cam â'r siaradwr ac yn ail fe fydd y ddarlith yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir ar wefan y Morlan (plýg mawr i'r wefan www.morlan.org.uk – mae'n werth i chi edrych arni ar ei newydd wedd). Fe fyddai o fudd i bob un ohonom sy'n arddel y ffydd Gristnogol i ddarllen syniadau John Gwilym Jones a'u trafod.

Mae yna gryn drafodaeth rhwng y rhai sy'n credu mai dehongliad llythrennol o air Duw yw'r Beibl a'r garfan fwy rhyddfrydol sy'n credu mai rhywbeth i chwilio amdano yn barhaus yw gwirionedd y Beibl. Mae'r rhyddfrydwyr (sydd yn cynnwys John Gwilym Jones) wedi datblygu syniadau eang a dadleuol trwy'r wefan www.cristnogaeth21.org. Rwy'n eich annog i edrych ar y wefan. Os ydych yn bendant eich barn am anffaeledigrwydd cynnwys llythrennol y Beibl yna fe gewch eich cythruddo. Ond os ydych yn ansicr a llawn amheuon yna dyma safbwynt a all fod o gymorth. Cefais agoriad llygaid o sylweddoli fod yna bobl eraill allan yna yn cael hi'n anodd derbyn rhai o syniadau'r sefydliad Eglwysig.

Beth am ddechrau trafodaeth?

Oni ddylem ddechrau gyda'r rhagosodiad mai nid llyfr didor yw'r Testament Newydd. Casgliad yw o 27 o ysgrifau byrrach wedi eu hysgrifennu gan wahanol awduron ar wahanol adegau ac mewn mannau amrywiol. Roedd yna gannoedd o ysgrifau tebyg yn bodoli yn y cyfnod o ychydig ganrifoedd ar ôl marwolaeth Iesu. Yn y bedwaredd ganrif ac ar ôl cryn ddadlau, cytunwyd mewn sawl cyfarfod o'r Eglwys gynnar ar yr ysgrifau hynny a oedd yn Apostolaidd (h.y. wedi eu bendithio gan yr Ysbryd Glan) a phenderfynwyd anwybyddu'r gweddill fel gwaith hereticaidd. Ond ai penderfyniadau gwleidyddol a chymdeithasol a oedd wrth wraidd rhai o'r dewisiadau? A yw'r Ysbryd Glân dal ar waith ac yn ein hannog ni i ailedrych ar y penderfyniadau gwreiddiol ac i geisio ar y gwirionedd ein hunain yn ein cyfnod ni yn hytrach na ryw 1600 o flynyddoedd yn ôl? Beth ydych chi'n meddwl?

Wyn Hughes

Barddoniaeth Hawliau Dynol

Yn ystod arddangosfa *Same Difference* a ddaeth i Ganolfan Morlan ym mis Mawrth, cynhaliwyd gweithdai barddoniaeth dan ofal Ifor ap Glyn, Bardd Plant Cymru 2008–9, gyda'r cerddi wedi eu seilio ar yr arddangosfa. Dyma'r gerdd a ysgrifennwyd gan flwyddyn 6 yr Ysgol Gymraeg.

Diwrnod yn Kampala
(bechgyn y stryd)

(*Mae cassava yn blanhigyn ac iddo wreiddyn bwytadwy, ac mae matoke yn cael ei wneud drwy stemio plantain gwyrdd, math o ffrwyth sy'n edrych yn debyg i fanana.*)

Yng nghornel iard y rheilffordd
cysga'r bechgyn mewn papur newydd llipa
fel anrhegion blêr i ddiwrnod arall,
yn gwingo'n y gwyll ar waelod hen wagen
a'u cefnau'n dost.

Mwg o'r trenau
ac olwynion ar gledrau sy'n eu deffro.
Stretsio.
Oglau chwys o gesail.
Golchi ceg hefo dŵr rhydlyd
o danc injan stêm.

Brysio gyda'r haul newydd
at ruthr y farchnad.
Gorymdaith lorïau'n troi'n dagfa draffig.
Goleuadau coch. Brecio'n swnllyd.
Bananas yn disgyn
yn glewt o gefn lori.

A'r bechgyn
fel pïod
yn cipio'r trysor melys i'w gwerthu,
gan gadw llygad barcud
am yrwyr lori blin,

y cwsmeriaid prin
a gelynion y gyfraith.

Weithiau rhaid ffoi rhag yr heddlu,
rhag cael eu curo,
rhag cael eu carcharu dros dro;
a bydd lliwiau'r farchnad yn blyrio i gyd
wrth wibio bant fel wildebeest,
a llwch y stryd yn diflannu dan draed.

Wrth iddi nosi,
gall y bechgyn bori'n ddiogel
ar reis, matoke neu cassava,
ac os bydd llond poced o elw'r dydd,
gallant fwyta cig,
â blas buddugoliaeth
yn tynnu dŵr o'r dannedd.

Cyn cysgu,
rhaid lapio'u hunain eto
fel anrhegion i'w postio
at yfory undonog
amheus
ansicr …

Mae Morlan yn ddiolchgar iawn i'r Academi am eu cymorth ariannol ac ymarferol yn trefnu'r gweithdai hyn.

Sul, 28, Mehefin 28
am 2.30 o'r gloch
Gwyl Ysgolion Sul Henaduriaeth Gogledd Ceredigion
yn Neuadd Pontrhydfendigaid
Arweinydd y gweithgareddau: Euros Lewis, Felinfach

Gweddi

Cymundeb o gariad

Dragwyddol ac anfeidrol Dduw, er na fedrwn ni amgyffred rhyfeddod dy fawredd,
yr wyt ti'n ein gwahodd i'th bresenoldeb, a thrwy Iesu Grist ac yng ngrym yr Ysbryd Glân,
yn ein tywys i rannu yn y cymundeb o gariad sydd ynot.
Addolwn di am inni dy adnabod fel Duw y Tad:
am dy waith yn galw'r byd a'r bydoedd i fod;
am dy ragluniaeth dyner yn cynnal dy gread,
ac am i ti dy ddatguddio dy hun i ni yn Dduw cariad.



Addolwn di am inni dy adnabod fel Duw y Mab:
am i'th ogoniant dwyfol ddod i'n plith yn y dyn Iesu;
am i ti rannu yn ein bywyd dynol ni yn ei wynfyd a'i wae,
ac am i ti, yn Iesu, faddau i ni ein pechodau a'n cymodi â thi.
Addolwn di am i ni dy adnabod fel Duw yr Ysbryd Glân:
am i ti wisgo dy Eglwys â nerth ar ddydd y Pentecost;
am i ti wroli dy ddisgyblion i gyhoeddi'r newyddion da,
ac am dy bresenoldeb byw gyda ni yn goleuo, yn arwain ac yn bywhau.
Mae rhyfeddod dy sancteiddrwydd yn llawer mwy na'n deall ni,
ond diolchwn i ti am dy ddatguddio dy hun inni,
ac am i ti ein cofleidio, ein cynnal a'n cadw yn dy ras.
Ac i ti, yr un Duw, yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
y bo'r mawl a'r gogoniant yn oes oesoedd.

Elfed ap Nefydd Roberts

Sul y Gymanfa

Ar fore Sul, 10 Mai, daeth plant a ieuenctid ysgolion Sul Gogledd Ceredigion at ei gilydd i Gapel Bethel i wasanaeth ar y thema Mae e'n fyw! o dan arweiniad Dafydd Timothy ac Andy Hughes gyda chymorth y band a ddaeth i gyfeilio. Roedd y cyflwyno yn fywiog ac yn gyfoes a chafwyd cyfraniadau gan yr Ysgolion Sul a oedd yn dilyn y digwyddiadau rhwng y Pasg a'r Pentecost.

Yn yr hwyr cafwyd Cymanfa Ganu o dan arweiniad Mrs. Carol Davies. Roedd yn oedfa o ddefosiwn a chanu mawl i Dduw ac roedd hi'n amlwg fod paratoi gofalus wedi bod ar ei chyfer yn yr ymarferiadau wythnosol.

Gethin, Catrin, Ifan a Rhodri yn canu gyda rhai o blant ysgolion Sul yr ardal yn y Gymanfa Ganu
(diolch i Marian Beech Hughes am y llun).

SWYDDOGAETHAU Mehefin 2009

Blaenor y Mis Miss Eleri Davies

Porthorion

Morfa: Mr Geraint L. Jones, Mr John Roberts, Mrs Mary Fitter, Mrs Beti Roberts

Ebeneser: Miss Sarah Jones

Blodau'r Cysegr

Y Morfa

7	Mrs Glenys James
14	Mrs Auriel Fenton
21	Mrs Hafina Wright a Mrs Siân Roberts
28	Mrs Nancy Lovatt

Ebeneser

7	Mrs Megan J. Evans
14	Mrs Marian Evans
21	Mrs Catherine Jones
28	Mrs Megan Morris

Cynorthwywyr Llestri Cymun

6	Mrs Miriam Evans, Mrs Eirwen Lewis, Mrs Elspeth Lewis, Miss Valerie Jones

Cynorthwywyr Ariannol

7	Mr Meirion Morgan a Mr David Harries
14	Mr Brian Thomas a Mr David M. Evans
21	Mrs Glenys James a Mr Hefin Jones
28	Mr a Mrs Merfyn Davies

Tregerddan

28	Dan ofal Mr Gerain L Jones a Miss Gwerfyl Pierce Jones

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y Ras Bywyd ar 17 Mehefin!

DYDDIADUR Mehefin 2009

Gwasanaethau'r Sul

10.00 a 6.00 yn y Morfa, 2.15 yn Ebeneser

7 Parch Vivian Jones

14 Grŵp Mr Wyn Hughes (bore a phrynhawn)
Miss Beti Griffiths (nos)

21 Parch. Dafydd H. Edwards
(Cymun prynhawn a'r nos)

28 Miss Anna Jane Evans

YSGOLION SUL

Plant: bore am 10.00
Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore

Hwyl Hwyr a'r Clwb Ieuenctid

i ailddechrau ym mis Medi: bydd manylion ar gael yn *Perthyn* mis Medi; 26–28 Mehefin, penwythnos Hwyl Hwyr yng Ngholeg y Bala:

CYLCH GWEDDI A CHOFFI – bore Mawrth, 10.30

CYFARFODYDD WYTHNOSOL – nos Iau am 7.00

CYMORTH CRISTNOGOL

2 Cinio Bara a Chaws yng Nghapel Methodistaidd Saesneg, Penparcau

Nos Wener, 12 Mehefin
6.30 – 8 o'r gloch

Noson Goffi ac Adloniant

gan Yr Ysgol Sul
yn Festri'r Morfa
Elw at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010

Golygyddion y mis hwn yw Ann Hawke ac Arwel Jones. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf os gwelwch yn dda at Siân Eleri (sianeleri@urdd.org) neu Gwenan Creunant (gwc@aber.ac.uk) erbyn Gwener, 19 Mehefin.